Site Stakeholder Group

Summary of Key points from
Wylfa Site Stakeholder Group Meeting 1 February 2018

1. The Chairman updated members on recent meetings he had attended and was due to attend e.g. NDA Chairs' Meeting (14/2/18) and Holliday Inquiry Meeting (14/2/2018).

2. Stuart Law presented the Site Director's Report drawing attention to the progress of defuelling (currently at 55%) and progress made with the asbestos removal project.

3. Jonathan Jenkin gave an update of site activities on behalf of the NDA.

4. A presentation was given on Reactor Dismantling by Jonathan Jenkin.

5. It was noted that UK government are currently consulting on the development of a Geological Disposal Facility. Welsh Government is also conducting their own process to identify potential sites.

6. An update on recipients of the Magnox Socio-Economic Scheme was presented by Mair Jones.

Site Stakeholder Group

Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group
Thursday 1 February 2018, David Hughes Hall, Cemaes

Present:

Cllr Aled M Jones	IOACC Twrcelyn Ward and SSG Chair
D Stuart Law	Site Director, Magnox
Mair Jones	Magnox Socio Economic Lead
Michelle Humphreys	Magnox Communications Lead
Lynda Wright	Magnox, Safety & Quality
Mark Elsworth	Magnox, Head of Radiation Protection
Jonathan Jenkin	Nuclear Decommissioning Authority
Cllr Derek Owen	Llanbadrig Community Council
Enid Jones	Merched y Wawr
Cllr Gordon Warren	Amlwch Town Council
Cllr Roger Dobson	Llanbadrig Community Council
Tim Poole	Campaign for the Protection of Rural Wales

Also:

Ann Llwyd	Translator – Cymen
Carli Evans Thau	Minute taker – Cymen

Apologies:

Julia Frost	Natural Resources Wales
Rona Arkle	Natural Resources Wales
Caron Weaver	Magnox Executive
John McGough	Office for Nuclear Regulation
John Idris Jones	Snowdonia Enterprise Zone
Cllr Richard Griffiths	IOACC Twrcelyn Ward
Sarah Andrews	Public Health Wales
Geraint Hughes	NWFRS Wylfa Newydd Project Manager
Gwyn Roberts	North Wales Fire Service
Sue Scott	Anglesey Federation of Women's Institutes
Gary Leighton Jones	North Wales Police
Gwyn Hughes	Emergency Planning Officer, North Wales
Tom Conway	Wylfa Retirees Association
Cllr Richie Hughes	Mechell Community Council
Cllr John Griffiths	IOACC Talybolion Ward
Cllr Gareth Winston Roberts OBE	Amlwch Town Council
Cllr Ken Hughes	IOACC Talybolion Ward

1 Welcome and Apologies for Absence

The Chair welcomed all to the meeting. It was noted that the group were meeting for the first time at the David Hughes Hall as a result of increased traffic on the site approach road. It was agreed the hall was a convenient location for such meetings with ample free parking nearby.

2 Approval of Minutes of the Meeting held 12 October 2017

The minutes had been circulated prior to the meeting. Cllr Roger Dobson proposed that the minutes were correct and was seconded by Cllr Gordon Warren. The minutes were received and accepted as a true and accurate record.

3 Matters Arising from the Previous Minutes

It was noted that an appendices accompanying the minutes contained additional information in response to any matters arising at the meeting in October.

4 SSG Chairman's Report

The Chair gave an overview of his activities since the last meeting including attending the Nuclear Institute Association (NIA) Dinner before Christmas. The Chairs and Vice Chairs of all UK wide SSG groups are due to meet in London on 14 February with regard to the Holliday Inquiry, the importance of feedback and informing communities, and especially the role played by the SSG. This meeting has been long awaited.

The Chair in his capacity of Chair of the SSG Chairs will meet with the new Chief Executive, David Peattie and Chair of the NDA, Tom Smith, also in London 14 February 2018.

5 Wylfa Site Director's Report

Stuart Law presented his Site Director's report. Copies of the report had been forwarded to SSG members and were also available at the meeting.

The asbestos removal programme is making good progress with over 50 tonnes of asbestos containing material removed to date.

The defuelling process is also progressing well with the reactors now 55% defuelled. The current forecast is to complete the defuelling by November 2019 due to issues before Christmas with some essential plant.

Those present were informed that Magnox are currently digging bore holes for baseline data in order to be able to monitor the site in future years.

Site staff were thanked for their fundraising efforts, raising in excess of £1000 with a Christmas cake bake and raffle. Money raised was distributed between the British Heart Foundation, Cemaes RNLI and the Special Care Baby Unit.

Maentwrog is currently ahead of target and availability has been 72%. The site celebrates its 90th Anniversary of renewable electricity production on 15 October 2018.

There were no questions from the floor and Stuart Law was thanked for his report.

6 Nuclear Decommissioning Authority Update and Presentation on Reactor Dismantling

Jonathan Jenkin noted that UK Government had launched a consultation last week with regard to the development of the Geological Disposal Facility (GDF). A number of stakeholder events are to be held across the country (although none in Wales as Welsh Government are following their own process to identify a possible site). Jonathan Jenkin confirmed that the NDA will support the attendance of two SSG members to attend one of the stakeholder events and feed back to the group at a later meeting.

Those present were informed that the National Nuclear Archives at Kew has secured the highest accolade being granted 'Place of Deposit' status. The facility has also collected two awards for design at the Architect's Journal Awards. A programme is now underway to transfer records from all NDA sites to one central location.

The NDA have conducted an independent survey to establish how stakeholders view the organisation. The data collected is currently being analysed. To date there appears to be a balance of positive and negative feedback, both are important to understand what can be improved. Jonathan Jenkin was willing to give a presentation on the survey's findings at a later meeting if required.

It was noted that the NDA are reviewing the current strategy for the timing and sequencing of Magnox reactor decommissioning across their sites. Advances in remote decommissioning show that reactors can be dismantled promptly without significant worker access. Although more costly in itself this would avoid expenditure on care and maintenance of some sites. The NDA review will consider the timing and sequencing of all reactors across the UK fleet. This must take into account other activities in the communities e.g. Horizon's Wylfa Newydd here on a neighbouring site and ongoing work at Calder Hall, Sellafield. A business case will be presented to the UK Government who will ultimately have the final say, following a period of stakeholder consultation and engagement. Jonathan Jenkin emphasised that the review is still in very early stages and no dates or timeline for engagement have been set.

Roger Dobson asked whether it was possible to give an accelerated timescale for the decommissioning of Wylfa should it be one of the sites identified for accelerated decommissioning i.e. how much sooner than 2116 could one expect the site to be fully decommissioned? Jonathan Jenkin confirmed that it would not be possible to determine at this stage as there are so many changes on site to be able to give a definitive answer.

Gordon Warren asked what had instigated the review and whether the parameters had changed. Jonathan Jenkin noted that it was good practice to review strategies from time to time. With a better understanding of ageing and the deteriorating condition of buildings, more technological advances and better understanding of possible issues such as asbestos, there is a possibility that some sites may be decommissioned sooner than initially thought possible.

Clarification was sought from Gordon Warren as to the consultation on developing a GDF. Jonathan Jenkin stated that this was a government consultation not the NDA. From his understanding there are two main factors – a willing host community and suitable geology. The Chair noted that Anglesey County Council had never sought to be considered for a GDF. There are two communities in Cumbria that were willing to host such a development at the last consultation but the project never progressed.

Derek Owen noted his concern that having generated for 20 years more than initially anticipated, surely Magnox and the NDA would know how and when Wylfa would be decommissioned. He was concerned at the lack of definitive plans and uncertainty. Stuart Law noted that at no time would a strategy compromise site safety and security. No high level waste would remain on site after the defuelling stage has been completed.

Enid Jones asked whether site safety was reliant on the funding available at the time, and if so what danger and threat would that pose to the local community. Stuart Law noted that site safety was paramount and that Magnox were legally obliged to ensure that. With no high level waste on site, the dangers are more conventional i.e. building safety. Some sites in this instance may become more costly than others to maintain.

Jonathan Jenkin was thanked for his presentation and update.

7 Office for Nuclear Regulation Update

There was no representative of the ONR present however a copy of the report prepared by the ONR had been distributed to all SSG members prior to the meeting.

8 Natural Resources Wales Update

There was no representative of NRW present however a copy of the report prepared by NRW had been distributed to all SSG members prior to the meeting.

9 Wylfa Waste Management Update

Stuart Law informed those present that there were no changes since the last meeting and that work continued on site to process waste and remove asbestos.

10 Magnox Socio-Economic Scheme Update

Mair Jones gave a short presentation on the achievements of the socio-economic scheme this financial year. 15 community organisations have benefitted from funding totalling £63,393.

It was noted that the NDA had contributed £2m towards a £13m project to support a new generation of engineers at Grwp Llandrillo Menai, Llangefni.

11 Open Forum Question and Answer Session

There were no additional questions from the floor.

12 Any Other Business

There being no other business, the Chair thanked all for their attendance and closed the meeting at 4.05pm.

Next Meeting – Thursday 7 June 2018 – Venue to be confirmed.

Site Stakeholder Group

Crynodeb o brif bwyntiau
Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa 1 Chwefror 2018

1. Cafodd yr aelodau eu diweddaru gan y Cadeirydd ar y cyfarfodydd diweddar y bu'n bresennol ynddynt ac y byddai'n eu mynychu (14/2/18) a Chyfarfod Ymchwiliad Holliday (14/2/2018).

2. Cyflwynodd Stuart Law Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle gan dynnu sylw at gynnydd y gwaith o wagio'r tanwydd (55% ar hyn o bryd) ac ar gynnydd y prosiect gwaredu asbestos.

3. Cafwyd diweddariad gan Jonathan Jenkin ar y gweithgarwch ar y safle ar ran yr ADN.

4. Cafwyd cyflwyniad at Ddatgymalu'r Adweithydd gan Jonathan Jenkin.

5. Nodwyd fod Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar hyn o bryd ar ddatblygu Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dilyn ei phrosesau ei hun i ganfod safleoedd posibl.

6. Cafodd diweddariad ar fuddiolwyr Cynllun Economaidd-Gymdeithasol Magnox ei gyflwyno gan Mair Jones.

Site Stakeholder Group

Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa
Dydd Iau 1 Chwefror 2018, Neuadd David Hughes, Cemaes

Yn bresennol:

Cyng Aled M Jones	Cyngor Môn, Ward Twrcelyn a Chadeirydd y GRhS
D Stuart Law	Cyfarwyddwr y Safle, Magnox
Mair Jones	Prif Swyddog Materion Economaidd-gymdeithasol Magnox
Michelle Humphreys	Prif Swyddog Cyfathrebu Magnox
Lynda Wright	Magnox, Diogelwch ac Ansawdd
Mark Elsworth	Magnox, Pennaeth Diogelu Rhag Ymbelydredd
Jonathan Jenkin	Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Cyng Derek Owen	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Enid Jones	Merched y Wawr
Cyng Gordon Warren	Cyngor Tref Amlwch
Cyng Roger Dobson	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Tim Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig

Hefyd:

Ann Llwyd	Cyfieithydd – Cymen
Carli Evans Thau	Cofnodion– Cymen

Ymddiheuriadau:

Julia Frost	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rona Arkle	Cyfoeth Naturiol Cymru
Caron Weaver	Gweithrediaeth Magnox
John McGough	Swyddfa dros Reoli Niwclear
John Idris Jones	Ardal Fenter Eryri
Cyng Richard Griffiths	Cyngor Môn – Ward Twrcelyn
Sarah Andrews	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Geraint Hughes	Rheolwr Prosiect Wylfa Newydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Gwyn Roberts	Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
Sue Scott	Ffederasiwn Sefydliad y Merched Môn
Gary Leighton Jones	Heddlu Gogledd Cymru
Gwyn Hughes	Swyddog Cynllunio at Argyfwng, Gogledd Cymru
Tom Conway	Cymdeithas Ymddeoledigion Wylfa
Cyng Richie Hughes	Cyngor Cymuned Mechell
Cyng John Griffiths	Cyngor Môn – Ward Talybolion
Cyng Gareth Winston Roberts OBE	Cyngor Tref Amlwch
Cyng Ken Hughes	Cyngor Môn – Ward Talybolion

1 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nodwyd fod y grŵp yn cwrdd yn Neuadd David Hughes am y tro cyntaf o ganlyniad i'r cynnydd yn y traffig ar y ffordd sy'n arwain i'r safle. Cytunwyd fod y neuadd yn lleoliad cyfleus ar gyfer cyfarfodydd o'r fath gyda digon o ofod parcio di-dâl gerllaw.

2 Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2017

Roedd y cofnodion wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod. Cynigiodd y Cyng Roger Dobson fod y cofnodion yn gywir a chafodd y cynnig ei eilio gan y Cyng Gordon Warren. Cafodd y cofnodion eu derbyn fel cofnod gwir a chywir.

3 Materion yn Codi o'r Cofnodion Diwethaf

Nodwyd fod atodiad yn cyd-fynd â'r cofnodion yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i unrhyw faterion a oedd wedi codi yng nghyfarfod mis Hydref.

4 Adroddiad Cadeirydd y GRhS

Cafwyd trosolwg gan y Cadeirydd o'i weithgarwch ers y cyfarfod diwethaf, a oedd yn cynnwys mynychu Cinio Cymdeithas y Sefydliad Niwclear (NIA) cyn y Nadolig. Bydd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion holl GRhSau y DU yn cwrdd yn Llundain ar 14 Chwefror i drafod ymchwiliad Holliday, pwysigrwydd adborth a hysbysu cymunedau, ac yn enwedig y rôl sy'n cael ei chwarae gan y GRhS. Mae'r cyfarfod yn un hir ddisgwyliedig.

Bydd y Cadeirydd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Cadeiryddion y GRhSau yn cwrdd â'r Prif Weithredwr newydd, David Peattie a Chadeirydd yr ADN, Tom Smith, hefyd yn Llundain ar 14 Chwefror 2018.

5 Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa

Cyflwynodd Stuart Law adroddiad Cyfarwyddwr y Safle. Roedd copïau o'r adroddiad wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i aelodau'r GRhS ac roedd hefyd ar gael yn y cyfarfod.

Mae'r rhaglen i waredu asbestos yn gwneud cynnydd da gyda dros 50 tunnell o ddeunydd sy'n cynnwys asbestos wedi'i symud o'r safle hyd yma.

Mae'r broses o wagio'r tanwydd hefyd yn gwneud cynnydd da gyda 55% o'r tanwydd bellach wedi'i wagio o'r adweithyddion. Rhagwelir yn awr y bydd yr holl danwydd wedi'i wagio erbyn Tachwedd 2019 oherwydd problemau a gafwyd gyda pheiriannau hanfodol cyn y Nadolig.

Clywodd y rhai oedd yn bresennol fod Magnox wrthi'n tyllu tyllau turio ar gyfer data gwaelodlin er mwyn gallu monitro'r safle yn y dyfodol.

Diolchwyd i staff y safle am eu hymdrechion codi arian, a chodwyd dros £1000 trwy bobi cacenni Nadolig a raffl. Cafodd yr arian a godwyd ei rannu rhwng Sefydliad Prydeinig y Galon, RNLI Cemaes a'r Uned Gofal Arbennig i Fabanod.

Mae Maentwrog yn rhagori ar y targed ar hyn o bryd ac mae argaeledd wedi bod yn 72%. Bydd y safle'n dathlu 90 mlynedd o gynhyrchu trydan adnewyddadwy ar 15 Hydref 2018.

Cafwyd cwestiynau o'r llawr a diolchwyd i Stuart Law am ei adroddiad.

6 Diweddariad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a Chyflwyniad at Ddatgymalu Adweithyddion

Nododd Jonathan Jenkin fod Llywodraeth y DU wedi lansio ymgynghoriad yr wythnos diwethaf ar ddatblygu'r Cyfleuster Gwaredu Daearegol (GDF). Bydd nifer o ddigwyddiadau i randdeiliaid yn cael eu cynnal ar hyd a lled y wlad (er na fydd dim yng Nghymru gan fod Llywodraeth Cymru yn dilyn ei phroses ei hun i ganfod safle posibl). Cadarnhaodd Jonathan Jenkin y bydd

yr ADN yn cefnogi presenoldeb dau aelod o'r GRhS i fod yn bresennol yn un o'r digwyddiadau i randdeiliaid ac y byddant yn adrodd yn ôl i'r grŵp mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod yr Archif Niwclear Genedlaethol yn Kew wedi sicrhau'r anrhydedd o gael statws 'Man Adneuo'. Mae'r archif hefyd wedi ennill dwy wobr am ei dyluniad yng Ngwobrau'r Architect's Journal. Mae rhaglen ar waith yn awr i drosglwyddo cofnodion o bob un o safleoedd yr ADN i un lleoliad canolog.

Mae'r ADN wedi cynnal arolwg annibynnol i ganfod barn rhanddeiliaid am y sefydliad. Mae'r data a gasglwyd yn cael ei dadansoddi ar hyn o bryd. Hyd yma mae'n ymddangos bod yr adborth positif a negyddol yn weddol gyfartal, mae'r ddwy farn yn bwysig i ddeall beth ellir ei wella. Roedd Jonathan Jenkin yn fodlon rhoi cyflwyniad ar ganfyddiadau'r arolwg mewn cyfarfod yn y dyfodol os bydd angen.

Nodwyd fod yr ADN yn adolygu'r strategaeth bresennol ar gyfer amseriad a dilyniant datgomisiynu adweithyddion Magnox ar eu safleoedd. Mae datblygiadau mewn datgomisiynu o bell wedi dangos bod modd datgymalu adweithyddion yn gyflym heb angen llawer o fynediad atynt gan weithwyr. Er bod hyn ynddo'i hun yn fwy costus gallai osgoi gwariant ar ofal a chynnal a chadw ar rai safleoedd. Bydd adolygiad yr ADN yn ystyried amseriad a dilyniant yr holl adweithion o'r fath yn y DU. Rhaid i hyn ystyried gweithgareddau eraill yn y cymunedau e.e. Wylfa Newydd Horizon ar safle cyfagos a'r gwaith sy'n mynd ymlaen yn Calder Hall, Sellafield. Bydd achos busnes yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU, a fydd â'r gair olaf ar y mater, yn dilyn cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Pwysleisiodd Jonathan Jenkin fod yr adolygiad yn ei ddyddiau cynnar o hyd ac nad oes dyddiadau nac amserlen wedi'u pennu eto ar gyfer ymgysylltu.

Gofynnodd Roger Dobson a fyddai modd cyflymu'r amserlen ar gyfer datgomisiynu Wylfa os bydd yn un o'r safleoedd a nodir ar gyfer datgomisiynu cyflymach h.y. faint yn gynharach na 2116 y gellid disgwyl y byddai'r gwaith datgomisiynu wedi'i gwblhau? Cadarnhaodd Jonathan Jenkin nad yw'n bosibl gwneud penderfyniad ar hyn o bryd gan fod cymaint o newidiadau ar y safle sy'n golygu ei bod yn anodd rhoi ateb pendant.

Gofynnodd Gordon Warren beth oedd wedi arwain at gynnal yr adolygiad ac a oedd y paramedrau wedi newid. Dywedodd Jonathan Jenkin ei fod yn ymarfer da i adolygu strategaethau o bryd i'w gilydd. Gyda gwell dealltwriaeth o heneiddio a dirywiad yng nghyflwr adeiladau, mwy o ddatblygiadau technolegol a dealltwriaeth well o broblemau posibl fel asbestos, mae'n bosibl y gall rhai safleoedd gael eu datgomisiynu'n gynharach na'r hyn a dybiwyd yn wreiddiol.

Gofynnodd Gordon Warren am eglurhad ar yr ymgynghoriad ar ddatblygu GDF. Dywedodd Jonathan Jenkin mai ymgynghoriad gan Lywodraeth y DU ac nid yr ADN yw hwn. Yn ôl yr hyn a ddeallai mae dwy brif ffactor – cymuned sy'n barod i'w groesawu a daeareg addas. Nododd y Cadeirydd nad oedd Cyngor Sir Ynys Môn wedi gofyn am gael ei ystyried ar gyfer GDF. Roedd dwy gymuned yn Cumbria yn barod i groesawu datblygiad o'r fath yn ôl yr ymgynghoriad diwethaf ond ni aeth y prosiect hwnnw yn ei flaen.

Mynegodd Derek Owen ei bryderon am y dylai Magnox a'r ADN wybod sut a pha bryd y byddai Wylfa yn cael ei datgomisiynu, a hithau wedi bod yn cynhyrchu trydan am 20 mlynedd yn hwy nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Roedd yn bryderus ynglŷn â'r diffyg cynlluniau pendant a'r ansicrwydd. Dywedodd Stuart Law na fyddai strategaeth yn peryglu diogelwch y safle o dan unrhyw amgylchiadau. Ni fyddai dim gwastraff lefel uchel yn cael ei gadw ar y safle ar ôl cwblhau'r cam gwagio'r tanwydd.

Gofynnodd Enid Jones a oedd diogelwch y safle'n ddibynnol ar yr arian a oedd ar gael ar y pryd, ac os felly pa berygl a bygythiad fyddai hynny'n ei olygu i'r gymuned leol. Dywedodd

Stuart Law fod diogelwch y safle'n holl bwysig a bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar Magnox i sicrhau hynny. Heb wastraff lefel uchel ar y safle, mae'r peryglon yn rhai mwy confensiynol h.y. diogelwch adeiladau. Mewn achosion fel hyn gall rhai safleoedd fod yn fwy costus i'w cynnal nag eraill.

Diolchwyd i Jonathan Jenkin am ei gyflwyniad a'r diweddariad.

7 Diweddariad gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear

Nid oedd cynrychiolydd o'r Swyddfa Dros Reoli Niwclear (ONR) yn bresennol; fodd bynnag roedd copi o'r adroddiad a baratowyd gan yr ONR wedi cael ei ddosbarthu i holl aelodau'r Grŵp cyn y cyfarfod.

8 Diweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Nid oedd cynrychiolydd o Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn bresennol; fodd bynnag roedd copi o'r adroddiad a baratowyd gan CNC wedi cael ei ddosbarthu i holl aelodau'r Grŵp cyn y cyfarfod.

9 Diweddariad ar Reoli Gwastraff Wylfa

Hysbyswyd pawb a oedd yn bresennol gan Stuart Law na fu dim newidiadau ers y cyfarfod diwethaf a bod gwaith yn parhau ar y safle i brosesu gwastraff ac i waredu asbestos.

10 Diweddariad ar Gynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox

Cafwyd cyflwyniad byr gan Mair Jones ar gyflawniadau'r cynllun economaidd-gymdeithasol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae 15 o fudiadau cymunedol wedi elwa ar nawdd sy'n werth cyfanswm o £63,393.

Nodwyd fod yr ADN wedi cyfrannu £2m tuag at brosiect £13m i helpu i greu cenhedlaeth newydd o beirianyddion yn Grŵp Llandrillo Menai, Llangefni.

11 Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored

Ni chafwyd dim rhagor o gwestiynau o'r llawr.

12 Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd dim mater arall, a diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 4.05pm.

Y Cyfarfod Nesaf – Dydd Iau 7 Mehefin 2018 – Y lleoliad i'w gadarnhau.